Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# Gwella gwasanaethau iechyd i bobl ag epilepsi sy'n byw yng Nghymru

Y Pwyllgor Deisebau | Mawrth 2021
Petitions Committee | March 2021

Cyfeirnod: SR221851-2

Rhif y ddeiseb: P-06-1240

Teitl y ddeiseb: Gwella gwasanaethau iechyd i bobl ag epilepsi sy'n byw yng Nghymru.

Geiriad y ddeiseb:Rydym yn pryderu nad yw'r gwasanaethau cyfredol i bobl ag epilepsi sy'n byw yng Nghymru yn rhoi'r cymorth a'r gefnogaeth y mae eu hangen arnynt. Mae Epilepsy Action yn argymell llwyth achosion o ddim mwy na 250 o bobl i bob Nyrs Epilepsi Arbenigol, a hynny er mwyn lleihau effaith eu cyflwr a darparu'r gofal gorau posibl. Nid oes yr un rhan o Gymru'n bodloni'r argymhelliad hwn ar hyn o bryd. Mae yna brinder nyrsys epilepsi arbenigol ac mewn llawer o ardaloedd mae'r amseroedd aros i weld niwrolegwyr dros 12 mis.

# 1. Cefndir

Mae gan bron **1 o bob 100 o bobl** yn y DU epilepsi. Yng Nghymru, mae gan **tua 32,000 o bobl** epilepsi.

Mae epilepsi yn **gyflwr niwrolegol** sy'n effeithio ar yr ymennydd ac yn achosi trawiadau neu deimladau ac ymddygiadau anarferol. Gall epilepsi ddechrau ar unrhyw oedran a cheir llawer o wahanol fathau. Bydd rhai plant yn tyfu allan o'r cyflwr wrth iddynt fynd yn hŷn. Ond i lawer o bobl, mae epilepsi yn gyflwr gydol oes. Mae rhagor o fanylion ar gael ar wefan Epilepsy Action Cymru.

Gall triniaeth reoli episodau epileptig. Ni all meddyginiaethau epilepsi wella epilepsi ond mae cyffuriau gwrth-epileptig (AEDs) **yn gallu helpu i atal neu leihau nifer y trawiadau**. Mae mathau eraill o driniaeth yn cynnwys llawdriniaeth ar yr ymennydd, neu weithiau gellir defnyddio deiet arbennig (y deiet cetogenig) ar gyfer plant.

Mae **Nyrsys Epilepsi Arbenigol yn chwarae rhan arwyddocaol** yng ngofal pobl ag anhwylderau niwrolegol fel epilepsi.

Cyhoeddodd Llywodraeth flaenorol Cymru Gynllun Cyflawni ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol yn 2017. Sefydlwyd Grŵp Gweithredu ar Gyflyrau Niwrolegol i oruchwylio’r cynllun cyflawni a chefnogi’r Byrddau Iechyd a phartneriaid i gyflawni eu cynlluniau lleol.

Mae'r Grŵp Gweithredu ar Gyflyrau Niwrolegol, sy'n ymdrin â chyflyrau sy'n cynnwys sglerosis ymledol, clefyd niwronau motor, epilepsi, clefyd Parkinson, nychdod cyhyrol ac anaf caffaeleidg i'r ymennydd yn rhan o **Gydweithrediad Iechyd GIG Cymru** (sefydliad cenedlaethol sy’n gweithio ar ran y cyrff iechyd sy’n rhan o GIG Cymru).

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi diweddaru'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol. Yn lle hynny, mae Fframwaith Clinigol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021, yn disgrifio sut y bydd gwasanaethau clinigol (fel cyflyrau niwrolegol) yn cael eu cefnogi gan ystod o **ddatganiadau ansawdd** sy'n nodi bwriadau polisi lefel uchel ac yn disgrifio'r safonau a'r canlyniadau a ddisgwylir gan wasanaethau clinigol. Nid oes datganiad ansawdd ar gyflyrau niwrolegol wedi'i gyhoeddi eto.

# 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Yn ei hymateb at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau, dywed Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mae Llywodraeth Cymru yn "parhau i gydweithio â'r **Grŵp Gweithredu ar Gyflyrau Niwrolegol** er mwyn gwella gwasanaethau i'r rheini ledled Cymru sydd â chyflyrau niwrolegol, gan gynnwys epilepsi". Mae'r Gweinidog yn nodi nifer o flaenoriaethau y mae'r Grŵp yn gweithio arnynt ar hyn o bryd gan gynnwys:

- Datblygu **dangosfwrdd data ar gyfer epilepsi**; i gefnogi achosion busnes ar gyfer datblygu gwasanaethau a sicrhau cefnogaeth i bobl sydd ag epilepsi yn y dyfodol.

- Datblygu **datganiad ansawdd ar gyfer cyflyrau niwrolegol**; yn pennu'r disgwyliadau o ran sut y mae modd cefnogi pobl â chyflyrau niwrolegol yn well.

- **Cydgysylltu ag Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y DU;** i sicrhau bod strategaeth Llywodraeth y DU ar gyflyrau niwrolegol yn ystyried bod gwasanaethau iechyd wedi'u datganoli yng Nghymru.

Mae'r Gweinidog yn dweud yn glir mai'r **Byrddau a'r Ymddiriedolaethau Iechyd s**y'n parhau i fod yn gyfrifol am gynllunio a darparu gwasanaethau i'r rheini sydd â chyflyrau niwrolegol, gan gynnwys epilepsi.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.